***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2535 (Cy. 250)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Hydref 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Hydref 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94, 95 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) dileer y diffiniad o "Deddf 1972";

(b) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "Cod Derbyniadau Ysgol" ("*School Admissions Code*") yw unrhyw god ar gyfer derbyniadau ysgol a ddyroddir o dan adran 84(**4**);";

(**1**) 1998 p.31. Mewnosodwyd is-adran 5A yn adran 94 gan adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Mewnosodwyd is-adran 3A yn adran 95 gan baragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2005/1398 (Cy.112).

(**4**) Diwygiwyd adran 84 gan adran 40 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40) a Rhan 6 o Atodlen 18 iddi.

"ystyr "Mesur 2011" ("*the 2011 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**5**);".

(3) Yn lle rheoliad 6 rhodder—

**"Ystyriaethau perthnasol mewn apelau sy'n cael eu dwyn o dan adrannau 94 a 95 o Ddeddf 1998**

**6.**—(1) Mewn perthynas ag apêl a wneir o dan y trefniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(a) i (ch), rhaid i'r materion i'w hystyried gan banel apêl wrth ystyried apêl gynnwys—

(a) unrhyw hoff ddewis a fynegir gan yr apelydd; a

(b) y trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 92.

(2) Y trefniadau derbyn y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) yw'r trefniadau a gyhoeddir pan fynegwyd unrhyw hoff ddewis gan yr apelydd.

(3) Caiff ystyriaeth o'r mater a grybwyllir ym mharagraff (1)(b) gynnwys ystyried a yw'r trefniadau hynny yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion gorfodol—

(i) Cod Derbyniadau Ysgol, neu

(ii) Rhan 3 o Ddeddf 1998.

(4) Pan wnaed penderfyniad ar y sail y byddai rhagfarn o'r math y cyfeirir ati yn adran 86(3)(a) yn codi fel a grybwyllir yn is-adran (4) o'r adran honno, caiff panel apêl benderfynu bod lle i'w gynnig i blentyn dim ond os yw'r panel wedi ei fodloni bod un o'r amodau a grybwyllir ym mharagraff (5) yn gymwys.

(5) Yr amodau a grybwyllir yn y paragraff hwn yw—

(a) y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle petai trefniadau derbyn yr ysgol wedi cydymffurfio â gofynion—

(i) Cod Derbyniadau Ysgol, neu

(ii) Rhan 3 o Ddeddf 1998;

(b) y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle petai trefniadau derbyn yr ysgol wedi eu gweithredu'n gywir; neu

(c) nid oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi ei wneud o dan amgylchiadau'r achos.

(6) Mewn perthynas ag apêl a wneir o dan drefniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(d), wrth ystyried apêl rhaid i banel apêl roi sylw i'r canlynol—

(a) y rhesymau dros benderfyniad yr awdurdod lleol y dylai'r plentyn dan sylw gael ei dderbyn; a

(b) unrhyw resymau a gyflwynir gan y corff llywodraethu ynghylch pam y byddai derbyn y plentyn yn amhriodol.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "hoff ddewis" ("*preference*") yw hoff ddewis a fynegir yn unol â threfniadau a wneir o dan adran 86(1) neu adran 86A(1)(**6**), mewn perthynas â blwyddyn ysgol 2013-2014, a'r blynyddoedd ysgol dilynol."

(4) Yn lle rheoliad 7 rhodder y canlynol—

(**5**) 2011 mccc 4.
(**6**) Mewnosodwyd adran 86A yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan adran 150 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008.

"**Talu lwfansau**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw aelod o banel apêl a gyfansoddir yn unol ag unrhyw un neu ragor o baragraffau Atodlen 1.

(2) Caiff yr awdurdod lleol perthnasol dalu i aelod y cyfeirir ato ym mharagraff (1) lwfansau ar gyfer—

(a) colled ariannol;

(b) teithio; ac

(c) cynhaliaeth.

(3) Mae'r lwfansau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) i fod ar y cyfraddau mwyaf diweddar a nodir ar gyfer taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref mewn adroddiad ("yr adroddiad") gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol(**7**) a ddyroddir o dan Ran 8 o Fesur 2011 (aelodau: taliadau a phensiynau).

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at ddyletswydd a gymeradwywyd i'w ddarllen fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad at fod yn bresennol mewn cyfarfod o banel apêl."

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

1 Hydref 2013

(**7**) Gwneir darpariaeth ar gyfer Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn adran 141 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adrannau 94, 95 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"). Maent yn gymwys i'r holl apelau a wrandewir ar 1 Ionawr 2014 neu ar ôl hynny mewn cysylltiad â phenderfyniadau i dderbyn (neu i beidio â derbyn) disgyblion i ysgolion. Maent yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Mae rheoliad 2 yn rhoi rheoliad 6 newydd yn lle'r hen un yn Rheoliadau 2005. Mae'r rheoliad newydd yn darparu y caiff panelau apêl ystyried a yw trefniadau derbyn yn anghyfreithlon am nad ydynt yn cydymffurfio â naill ai Deddf 1998, neu ddarpariaethau gorfodol unrhyw god derbyniadau ysgol (a ddyroddir o dan adran 84 o Ddeddf 1998). Pan fydd ysgol yn gwrthod rhoi lle i blentyn ar y sail y byddai derbyn y plentyn yn torri'r terfyn statudol ar faint dosbarth babanod oni bai bod camau perthnasol yn cael eu cymryd i osgoi'r toriad hwnnw, dim ond ar seiliau cyfyngedig penodol y caiff panelau gadarnhau'r apêl. Mae'r rheoliad 6 newydd yn darparu y caiff panel gadarnhau'r fath apelau os yw'r panel wedi ei fodloni naill ai y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle petai'r trefniadau derbyn perthnasol wedi cael eu gweithredu'n gywir, neu pe baent wedi bod yn gyfreithlon, neu os yw'r panel wedi ei fodloni bod penderfyniad yr awdurdod derbyn yn afresymol.

Mae rheoliad 2 hefyd yn rhoi rheoliad 7 newydd yn lle'r hen un fel bod lwfansau y caniateir eu talu i aelodau panelau yn adlewyrchu'r cyfraddau sy'n gymwys i Gynghorwyr Cymunedol o dan Ran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.